

2021 Rhif (Cy.)

2021 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffyrdd yr A470 a'r
A489 (Cyffordd Moat Lane,
Caersŵs, Powys) (Terfyn
Cyflymder 40 mya Dros Dro a Dim
Goddiweddyd) 2021

The A470 & A489 Trunk Roads
(Moat Lane Junction, Caersws,
Powys) (Temporary 40 mph Speed
Limit & No Overtaking) Order
2021

Gwnaed 30 Mawrth 2021

Made 30 March 2021

Yn dod i rym 3 Ebrill 2021

Coming into force 3 April 2021

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffyrdd yr A470 a'r A489, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a/neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffyrdd, neu gerllaw iddynt, ac oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A470 and A489 trunk roads, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk roads should be restricted and/or prohibited because of works proposed on or near the road and because of the likelihood of danger to the public.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi a chychwyn

Title and commencement

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A470 a'r A489 (Cyffordd Moat Lane, Caersŵs, Powys) (Terfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro a Dim Goddiweddyd) 2021 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 3 Ebrill 2021.

1. The title of this Order is the A470 & A489 Trunk Roads (Moat Lane Junction, Caersws, Powys) (Temporary 40 mph Speed Limit & No Overtaking) Order 2021 and this Order comes into force on 3 April 2021.

Dehongli

Interpretation

2. Yn y Gorchymyn hwn—

2. In this Order—

ystyr “y cefnffyrdd” (“*the trunk roads*”) yw cefnffordd yr A470 a'r A489 y Drenewydd i

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means:

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

Aberystwyth a chefnffordd yr A470 Caersŵs i Fachynlleth;

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw:

- (a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1); a
- (b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—
 - (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
 - (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw'r cyfnod sy'n dechrau am 08:00 o'r gloch ar 3 Ebrill 2021 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Cyfyngiad a gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Cymhwyso

5.—(1) Ni fydd y cyfyngiad a'r gwaharddiad yn erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(1) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

(a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(1); and

(b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

(i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or

(ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk roads” (“*y cefnffyrdd*”) means the A470 and A489 Newtown to Aberystwyth trunk road and the A470 Caersŵs to Machynlleth trunk road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means the period commencing at 08:00 hours on 3 April 2021 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

Restriction and prohibition

3. No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 40 miles per hour on the lengths of the trunk roads specified in the Schedule to this Order.

4. No person may, during the works period, use or permit the use of a vehicle, other than an exempted vehicle, in such a way that it overtakes any other vehicle on the lengths of the trunk roads specified in the Schedule to this Order.

Application

5.—(1) The restriction and prohibition in articles 3 and 4 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

(1) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c.15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c.22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c.20), section 50(4) and (5).

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Atal Dros Dro

6. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 3 yn weithredol.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 30 Mawrth 2021

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

Y darn o gefnffordd yr A470 sy'n ymestyn o bwynt 408 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt cyffordd Moat Lane, Caersŵs yr A470/A489 hyd at bwynt 355 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt y gyffordd honno.

Y darn o gefnffordd yr A489 sy'n ymestyn o ganolbwynt cyffordd Moat Lane, Caersŵs yr A470/A489 hyd at bwynt 300 metr i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt y gyffordd honno.

(2) No speed limit imposed by this Order applies to an exempted vehicle.

Suspension

6. Any statutory provisions restricting the speed of vehicles on the lengths of the trunk roads specified in the Schedule to this Order are suspended during such times as the restriction specified in article 3 is in operation.

Duration of this Order

7. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed under authority of the Minister for Economy, Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated 30 March 2021

Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government

SCHEDULE

The length of the A470 trunk road that extends from a point 408 metres south-west of the centre-point of the A470/A489 Moat Lane junction, Caersws to a point 355 metres north-west of the centre-point of that junction.

The length of the A489 trunk road that extends from the centre-point of the A470/A489 Moat Lane junction, Caersws to a point 300 metres north-east of the centre-point of that junction.

**GORCHYMYN CEFNFFYRDD YR A470 A'R
A489 (CYFFORDD MOAT LANE, CAERSŴS,
POWYS) (TERFYN CYFLYMDER 40 MYA
DROS DRO A DIM GODDIWEDDYD) 2021**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith, ac oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd, ar gefnffyrdd yr A470 a'r A489, neu gerllaw iddynt, yng Nghaersŵs, Powys.

Effaith y Gorchymyn yw gosod terfyn cyflymder 40 mya dros dro a gwahardd goddiweddyd ar:

- i. y darn o gefnffordd yr A470 sy'n ymestyn o bwynt 408 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt cyffordd Moat Lane, Caersŵs yr A470/A489 hyd at bwynt 355 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt y gyffordd honno; a
- ii. y darn o gefnffordd yr A489 sy'n ymestyn o ganolbwynt cyffordd Moat Lane, Caersŵs yr A470/A489 hyd at bwynt 300 metr i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt y gyffordd honno.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 3 Ebrill 2021 a disgwylir y bydd y cyfyngiad a'r gwaharddiad dros dro mewn grym o 08:00 o'r gloch ar y dyddiad hwnnw am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd) ar <https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd>.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.



J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A470 & A489 TRUNK ROADS (MOAT
LANE JUNCTION, CAERSWS, POWYS)
(TEMPORARY 40 MPH SPEED LIMIT AND NO
OVERTAKING) ORDER 2021**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works and because of the likelihood of danger to the public on or near the A470 and A489 trunk roads at Caersws, Powys.


The effect of the Order is to temporarily impose a 40 mph speed limit and prohibit overtaking on:

- i. the length of the A470 trunk road that extends from a point 408 metres south-west of the centre-point of the A470/A489 Moat Lane junction, Caersws to a point 355 metres north-west of the centre-point of that junction; and
- ii. the length of the A489 trunk road that extends from the centre-point of the A470/A489 Moat Lane junction, Caersws to a point 300 metres north-east of the centre-point of that junction.

The Order comes into force on 3 April 2021 and the temporary restriction and prohibition are expected to be in force from 08:00 hours on that date for a maximum duration of 18 months.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.



J SADDLER
Transport
Welsh Government